Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

21/03/2022

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Bydd noson rieni disgyblion Blwyddyn 7 yn cael ei chynnal yn rhithiol eleni ar **Ddydd Mawrth, 29ain o Fawrth, 2022.** Bydd y noson yn dechrau am **15:30** ac yn gorffen am **19.00**. Bydd y system apwyntiadau yn agor i rieni am 19:00 ar Ddydd Mawrth, 22ain o Fawrth ac yn cau ar Ddydd Mawrth, 29ain o Fawrth am 15:00. Mae'r noson yn hanfodol bwysig ac mae'n gyfle euraidd i drafod datblygiad academaidd a chymdeithasol eich plentyn ym Mryn Tawe.

Byddwn yn defnyddio system apwyntiadau trwy'r rhaglen SchoolCloud ar gyfer bwcio amser a chyfarfod gydag athrawon. Dyma'r wefan bydd angen arnoch: https://ggbts.schoolcloud.co.uk/. Bydd pob apwyntiad yn para hyd at 4 munud gydag ysbaid o funud rhwng apwyntiadau. Gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn gwneud apwyntiadau gyda phob pwnc mae eich mab/merch yn astudio. Gofynnwn hefyd eich bod yn dewis lleoliad priodol ar gyfer eich cyfarfodydd gydag athrawon. Mae'r manylion ar sut i fwcio apwyntiadau a threfn y noson wedi'u hatodi i'r llythyr yma yn ogystal âg ar wefan yr ysgol. Os hoffech fenthyg gliniadur er mwyn mynychu'r apwyntiadau, cysylltwch gyda Mrs Angharad Stephens i drefnu. Os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych, yna cysylltwch gyda'r ysgol.

Petai chi'n dymuno trefnu sgwrs fugeiliol gydag aelod o staff, bydd angen cysylltu gydag un o'r athrawon isod trwy e-bost er mwyn trefnu galwad/cyfarfod. Nid oes rhaid trefnu cyfarfod bugeiliol.

- Mr Simon Davies (Prifathro) - DaviesS456@Hwbcymru.net
- Mrs Rhian Edwards-Jones (Dirprwy Dros Dro) - Edwa-JoneR@Hwbcymru.net
- Mrs Nerys Vaughan (Pennaeth Cynorthwyol) - VaughanN9@Hwbcymru.net

---

Dear Parent / Guardian,

Year 7's parents evening will be held virtually on **Tuesday, 29th of March**. The evening will start at **15:30** and finish at **19:00.** The booking system will open at 19:00 on Tuesday, 22nd of March and will close on Tuesday 29th of March at 15:00. This parents evening is of great importance and represents a valuable opportunity for you to discuss your child's academic and social development at Bryn Tawe.

We will be using the SchoolCloud programme for booking and meeting with your child's teachers. The website that you will require is: https://ggbts.schoolcloud.co.uk/. Each appointment will last up to 4 minutes with a minute break between appointments. We kindly ask that you make appointments with teachers in all the subjects that your child is studying. We also kindly ask that you choose an appropriate location in which to conduct your meetings with your child's teachers. Details on how to set yourself up for the evening are attached to this letter and are also available on the school web site. If you need to borrow a laptop to access appointments, then please contact Mrs Angharad Stephens to make arrangements. If you have any queries, do not hesitate to contact the school.

Should you wish to arrange a pastoral meeting with a member of staff, you will need to contact one of the teachers listed below via email to arrange a telephone call/meeting:


- Mr Simon Davies (Prifathro) - DaviesS456@Hwbcymru.net
- Mrs Rhian Edwards-Jones (Dirprwy Dros Dro) - Edwa-JoneR@Hwbcymru.net
- Mrs Nerys Vaughan (Pennaeth Cynorthwyol) - VaughanN9@Hwbcymru.net


Yn gywir / Yours sincerely,

Mrs Angharad Stephens,
(Pennaeth Blwyddyn 7 / Head of Year 7)


Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies